*"Grymuso ein pobl i wireddu eu potensial"*



# Cynllun y Gweithlu

2017 - 2022

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru·Love
Ceredigion

## Croeso i Gynllun y Gweithlu Cyngor Sir Ceredigion

### Beth yw Cynllunio'r Gweithlu?

Mae cynllunio'r gweithlu yn broses wedi'i llunio gan strategaeth sefydliadol ac mae'n golygu sicrhau bod y nifer iawn o bobl sydd â'r sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn i wireddu amcanion y sefydliad.

### Y Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022

Mae Cynllun y Gweithlu y Cyngor yn un o bedair dogfen allweddol sy'n cysylltu â Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor. Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn amlinellu'r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y Cyngor dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd. Mae'n ceisio sicrhau bod ein Cyngor yn parhau i gael ei raddio fel un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru a'i fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, diogel, effeithlon ac effeithiol i drigolion Ceredigion.

### Blaenoriaethau Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 yw:

- Hybu'r Economi
- Buddsoddi yn Nyfodol Pobl
- Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
- Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol



## Ein Gweithlu

Mae gallu Cyngor Sir Ceredigion i ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus a gwella'n barhaus yn dibynnu ar gael y bobl iawn yn y Cyngor sydd â'r sgiliau iawn yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

Mae cynllunio'r gweithlu yn ymwneud â chael gwybodaeth a dealltwriaeth drwyadl o'r gweithlu presennol, dadansoddi'r wybodaeth honno er mwyn pennu'r sgiliau, y cymwyseddau a'r capasiti'r y bydd eu hangen ar y gweithlu yn y dyfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod y capasiti a'r gallu gennym i ddarparu gwasanaethau a blaenoriaethau newydd, gwahanol, a/neu well a fydd yn cyfateb â nodau'r sefydliad ac yn gwasanaethu trigolion Ceredigion.


### Y Gweithlu

Mae maint cyffredinol ein gweithlu wedi lleihau dros y ddwy flynedd ddiwethaf o **2,698 o staff cyfwerth ag amser llawn** yn Ebrill 2015 i **2,505 o staff cyfwerth ag amser llawn** yn Ebrill 2017. Disgwylir i'r duedd hon barhau. Mae hyn yn adlewyrchu natur newidiol y gwasanaethau, y lleihad yng nghyllidebau'r Cyngor a'r angen i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn ein gwasanaethau.

Mae rhai o'n gwasanaethau rheng-flaen allweddol yn gweithredu **24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn** a gwneir ymdrech i sicrhau bod pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu pan fydd pobl yn dymuno ei ddefnyddio. Mae amrywiaeth eang o swyddi gennym gyda'r Cyngor yn amrywio o weithwyr gofal rheng-flaen i gyfreithwyr.

Mae cyflogau yn cyfrif am 43% o gyllideb net y Cyngor.

**GWEITHLU'R CYNGOR**



## Themâu Cynllun y Gweithlu

Cynhaliodd bob Gwasanaeth ymarfer cynhwysfawr ar gynllunio'r gweithlu yn ystod 2017. Pwrpas yr ymarfer hwn oedd cael dealltwriaeth drwyadl o'r gweithlu o ran y sgiliau, y cymwyseddau a'r capasiti y bydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau a blaenoriaethau newydd, gwahanol a/neu well yn y dyfodol.

O ganlyniad i'r ymarfer hwn, mae'r pedair thema allweddol ganlynol wedi cael eu nodi fel rhai a fydd yn ateb anghenion y gweithlu yn y dyfodol gan gyflawni blaenoriaethau strategol y Cyngor yr un pryd.

### Themâu

**01 — YMGYSYLLTU A CHYFLE**

**Byddwn yn ymgysylltu â'n staff a'n cymunedau i hyrwyddo Cyngor Sir Ceredigion fel lle gwych i weithio.**

**02 — GWEITHLU HYBLYG AC YSTWYTH**

**Byddwn yn datblygu ac yn helpu ein staff i weithio'n hyblyg ar draws y Sir, gan weithio'n effeithiol â chymunedau a'r trydydd sector.**

**03 — HYRWYDDO GWEITHLU DWYIEITHOG A FYDD YN GWASANAETHU'R GYMUNED**

**Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y gweithlu a'n cymuned.**

**04 — DATBLYGU ARWEINYDDIAETH A RHEOLAETH**

**Byddwn yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth ein gweithlu i wynebu heriau'r dyfodol.**

# Ymgysylltu a Chyfle

**Byddwn yn ymgysylltu â'n staff a'n cymunedau i hyrwyddo Cyngor Sir Ceredigion fel lle gwych i weithio.**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod pwysigrwydd denu, cadw a hyfforddi pobl sydd â'r sgiliau y mae eu hangen ar gyfer y dyfodol. Er mwyn cadw talent rhaid i weithwyr gael eu gwobrwyo'n deg a chael cyfle i ddatblygu a gwneud cynnydd. Felly mae'n hanfodol bod y Cyngor yn mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a phrofiad gwaith o fewn Ceredigion. Bydd cynnig cynlluniau o fewn y Cyngor i 'dyfu ei staff ei hun' a darparu cyfleoedd i bobl aros yn yr ardal trwy gynnig rhagolygon i ddatblygu a dysgu tra eu bod nhw'n ennill yn allweddol er mwyn cyflawni hyn.

## Rydym eisoes wedi:

- ✓ Mynychu rhai ffeiriau ysgolion a phrifysgolion i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yng Nghyngor Sir Ceredigion
- ✓ Cynnal ymarfer cynllunio'r gweithlu sy'n nodi'r meysydd gwasanaeth a'r swyddi a allai fanteisio ar brentisiaethau
- ✓ Pennu darparwr dysgu sydd â chysylltiadau sefydledig â Chyngor Sir Ceredigion ac a all ddarparu fframweithiau prentisiaeth perthnasol
- ✓ Datblygu cysylltiadau â Phrifysgol Aberystwyth a chynnig lleoliadau gwaith academaidd ar gyfer 8 myfyriwr yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18
- ✓ Cytuno i adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer hyfforddeion gwaith cymdeithasol a sefydlu trefniadau newydd ar gyfer carfan Medi 2018
- ✓ Defnyddio technoleg i bostio swyddi gwag ar nifer o fyrddau swyddi
- ✓ Cyhoeddi erthyglau o fewn y wasg leol am waith staff y Cyngor
- ✓ Hyrwyddo cyfleoedd i weithio'n rhanbarthol a bod y corff sy'n cyflogi ar gyfer ychydig o gydweithredu rhanbarthol

## Beth y byddwn yn ei wneud:

- → Sicrhau dull rhagweithiol ac wedi'i gynllunio at hyrwyddo Cyngor Sir Ceredigion mewn ffeiriau gyrfaoedd a digwyddiadau mewn ysgolion a phrifysgolion
- → Datblygu Cynllun Prentisiaethau Cyngor Ceredigion a fydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ar wahanol lefelau ac ar draws gwasanaethau
- → Hyrwyddo manteision cyfleoedd profiad gwaith strwythuredig i ysgolion a phrifysgolion ac annog meysydd gwasanaeth i ddarparu lleoliadau profiad gwaith
- → Cynnal a chryfhau trefniadau ar gyfer lleoliadau i fyfyrwyr prifysgol o brifysgolion ar draws y Sir
- → Cyflogi Cydlynydd Prentisiaethau a Phrofiad Gwaith a fydd yn:
  - hyrwyddo'r Cynllun Prentisiaeth
  - cefnogi Prentisiaid
  - cydlynu lleoliadau profiad gwaith ar draws pob gwasanaeth i ymgeiswyr ôl-16
- → Sefydlu cynllun i hyfforddeion gwaith cymdeithasol yn lle'r trefniadau presennol
- → Ystyried ffyrdd eraill a blaengar o hyrwyddo a hysbysebu cyfleoedd cyflogaeth
- → Cyfleu manteision Cyngor Sir Ceredigion fel cyflogwr. Rhannu straeon newyddion da
- → Sefydlu cyfleoedd recriwtio ar y cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill

# Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth

**Byddwn yn datblygu ac yn helpu ein staff i weithio'n hyblyg ar draws y Sir, gan weithio'n effeithiol â chymunedau a'r trydydd sector.**

Mae gwasanaethu poblogaeth sydd â'r fath amrywiaeth o anghenion yn gofyn am weithlu sy'n hyblyg ac sy'n gallu addasu i newid a gweithlu y gellir ei leihau neu ei gynyddu a'i lunio i fodloni gofynion lleol. Byddwn yn datblygu sgiliau a gwybodaeth ein gweithwyr i fodloni gofynion gwasanaeth, yn gwella eu perfformiad ac yn cynyddu symudedd sefydliadol.

Ceir cyfleoedd i'r Cyngor gydweithio'n agosach â sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector eraill er mwyn cynnig gwasanaeth di-dor i bobl. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl Ceredigion o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni, a chredwn y gallwn, trwy gydweithio ag eraill, gryfhau ein cydnerthedd a chynyddu cynhyrchiant, gan helpu i greu gwasanaethau lleol ar gyfer y dyfodol.

**Rydym eisoes wedi:**

- ✓ Canoli swyddogaethau corfforaethol megis Adnoddau Dynol, Cwynion a Gwasanaethau Cwsmeriaid
- ✓ Dechrau ar gam 1 ad-drefnu corfforaethol sy'n cynnwys Prif Swyddogion ac Uwch Swyddogion
- ✓ Sefydlu Panel Hyfforddiant Corfforaethol sy'n sicrhau bod anghenion hyfforddi corfforaethol yn cael sylw mewn ffordd arloesol a chost-effeithiol
- ✓ Datblygu cwrs hyfforddi 'Y Cwsmer yn Gyntaf' mewnol sy'n hyrwyddo gwasanaeth cwsmeriaid a gweithio mewn tîm
- ✓ Gweithio gyda chydweithwyr Undebau Llafur i ddarparu cyfleoedd hyfforddi trwy gyllid WULF i uwchsgilio staff mewn sgiliau digidol. Ennill Gwobrau Addysg Oedolion Inspire yn y categori Cyflogwr Mawr y Flwyddyn ym Mehefin 2017

**Beth y byddwn yn ei wneud:**

- → Parhau i ad-drefnu gwasanaethau cymorth gan ganoli timau lle bynnag y bo'n bosibl
- → Adolygu strwythur staffio'r Cyngor yn raddol i sicrhau bod capasiti a gallu gan swyddogion i fodloni blaenoriaethau ac amcanion y Cynlluniau Corfforaethol
- → Cynnig cyfleoedd Hyfforddi'r Hyfforddwr i staff er mwyn manteisio ar arbenigedd o fewn y gweithlu
- → Datblygu gweithlu sydd â gwybodaeth ehangach o'r sefydliad a fydd yn golygu y gellir lleoli staff ar draws gwasanaethau
- → Parhau i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu arloesol a chost-effeithiol
- → Defnyddio'r modiwl Dysgu a Datblygu Ceri ar draws pob gwasanaeth i hyrwyddo, bwcio a chofnodi hyfforddiant a sicrhau 'un cofnod hyfforddiant' ar draws y Cyngor
- → Hyrwyddo uwchsgilio staff mewn technolegau er mwyn hybu a chael mynediad i wasanaethau digidol
- → Hyrwyddo ethos gwasanaeth cwsmeriaid gyda'r holl staff a thimau trwy gynnig hyfforddiant Y Cwsmer yn Gyntaf i bob maes gwasanaeth
- → Cyflwyno polisi gweithio ystwyth sy'n manteisio i'r eithaf ar le swyddfa ac yn ad-drefnu lle swyddfa ar draws y Cyngor
- → Cyflwyno rhaglen ymsefydlu gorfforaethol ar gyfer staff a rheolwyr newydd

# Hyrwyddo gweithlu dwyieithog a fydd yn gwasanaethu'r gymuned

**Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y gweithlu a'n cymuned.**

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i gefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, gan sicrhau bod ei wasanaethau a'i weithgareddau yn hyrwyddo ac yn annog y defnydd o'r Gymraeg ar draws y Sir. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r iaith Gymraeg, yng Nghymru, gael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, a dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.  Cymraeg a Saesneg fydd iaith swyddogol y Cyngor a bydd yn mwynhau'r un statws a dilysrwydd yng ngweinyddiaeth a gwaith y Cyngor.  Mae Ceredigion yn falch bod dros 60% o'i weithlu yn gallu siarad Cymraeg.

### Rydym eisoes wedi:

- ✓ Darparu dogfennau dwyieithog i staff
- ✓ Darparu gwefannau CeriNet a Ceri dwyieithog
- ✓ Annog staff i ddefnyddio'r eicon 'siarad Cymraeg' ar Lync a'r e-bost
- ✓ Darparu cyfleusterau cyfieithu ar gyfer Cymraeg ysgrifenedig ac mewn cyfarfodydd
- ✓ Darparu rhaglenni TG Cysill a Chysgeir i helpu staff i ddefnyddio Cymraeg cywir
- ✓ Darparu amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg ar lefelau amrywiol
- ✓ Cynnig cyrsiau dwys a phreswyl i staff
- ✓ Cofnodi lefelau ALTE pob aelod o staff gyda lefelau staffio cyfredol yn darparu dros 60% o staff ar lefel ALTE 3 ac uwch mewn Cymraeg llafar
- ✓ Darparu cwrs Cymraeg ar-lein i ddechreuwyr

### Beth y byddwn yn ei wneud:

- → Parhau i ddatblygu gwaith Grŵp Hyfforddi Cymraeg yn y Gweithle
- → Manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- → Darparu amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi Cymraeg sy'n rhoi sylw i'r amrywiaeth o alluoedd o fewn y gweithlu
- → Cyflwyno cynllun Cymraeg 'ffrindiau iaith - Welsh friend' i helpu dysgwyr Cymraeg
- → Hyrwyddo'r strategaeth 'Mwy na Geiriau' a'r ymgyrch cynnig gweithredol i bob gwasanaeth
- → Sicrhau bod dysgwyr Cymraeg yn cael eu cefnogi i wireddu eu nodau ieithyddol
- → Hyrwyddo dealltwriaeth o'r Gymraeg a gwybodaeth ddiwylliannol gyda'r holl staff trwy gwrs e-ddysgu

# Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Byddwn yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth ein gweithlu i wynebu heriau'r dyfodol.**

Nid yw arweinwyr a rheolwyr effeithiol byth yn fwy hanfodol na mewn adegau o gyni a newid mawr. Mae datblygu sgiliau ein harweinwyr a'n rheolwyr i ymateb i amgylchedd sy'n newid yn gyflym yn hollbwysig i'n llwyddiant.

Byddwn yn cryfhau gallu arweinwyr ac yn sicrhau bod gan arweinwyr a rheolwyr y sgiliau i ddatblygu ac ysgogi timau ac unigolion sy'n perfformio'n dda.

Byddwn yn datblygu gallu ein rheolwyr i ymgysylltu a chyfathrebu'n fwy effeithiol â'u timau a'u cydweithwyr, gan gydweithio i gael atebion arloesol i'r heriau a wynebwn.

### Rydym eisoes wedi:

- ✓ Cynnig cyngor a gwybodaeth i helpu rheolwyr trwy wefan CeriNet - pecyn cymorth rheolwyr a sylfaen wybodaeth system Ceri
- ✓ Defnyddio pecyn cymorth cynllunio'r gweithlu strategol i helpu Uwch Swyddogion i ganfod talent a rheoli cynllunio dilyniannol
- ✓ Darparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi a datblygu i reolwyr
- ✓ Cynnal arolwg Arweinyddiaeth a Rheolaeth i nodi cymwyseddau arweinyddiaeth a rheolaeth a meysydd allweddol i'w datblygu
- ✓ Helpu uwch arweinwyr i fynychu digwyddiadau Academi Cymru ar 'Arwain yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru'
- ✓ Datblygu modiwl Rheoli Perfformiad ar Ceri a fydd yn helpu rheolwyr i sicrhau perfformiad a datblygiad effeithiol staff

### Beth y byddwn yn ei wneud:

- → Llunio a hyrwyddo Cynllun Datblygu 'Rheolwyr Ceredigion' gyda fframwaith craidd o hyfforddiant gorfodol
- → Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd rheoli a datblygu ychwanegol a fydd yn bodloni anghenion hyfforddi a datblygu 'Rheolwyr Ceredigion'
- → Cyflwyno rhaglen ymsefydlu 'Rheolwyr Newydd'
- → Datblygu proses Rheoli Talent trwy'r pecyn cymorth strategol ar gyfer cynllunio'r gweithlu
- → Sicrhau bod cynllunio dilyniant effeithiol yn ei le er mwyn cadw gwybodaeth sefydliadol
- → Datblygu gwybodaeth y sefydliad cyfan ar gyfer Arweinwyr a Rheolwyr i weithredu newid yn effeithiol a gwella'r broses gwneud penderfyniadau
- → Hyrwyddo ymhellach y defnydd o CeriNet gyda rheolwyr fel ffynhonnell o wybodaeth, cyngor a chymorth
- → Ehangu'r defnydd o webinarau ar gyfer rhannu gwybodaeth â rheolwyr
- → Datblygu rhwydwaith rheolwyr corfforaethol a fydd yn cwrdd yn rheolaidd ag Uwch Arweinwyr